Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, ar ddydd Mercher, Mai 24ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Richard Wallace
Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Pam Steane Price
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns,

Materion yr Heddlu : Adroddodd y Rhingyll Neil Jones fod yr heddlu wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf. Mae nifer o bobl wedi'u harestio a'u cyhuddo o amrywiaeth o wahanol droseddau. Roedd yn teimlo fod yr heddlu wedi cyflawni'r hyn roeddynt yn ei ddymuno ei wneud. Roedd yn gobeithio y byddai Swyddog Cymorth Cymunedol wedi'i benodi erbyn mis Hydref. Bydd PC Vernon Thomas yn parhau fel Swyddog yr Heddlu yn y gymdogaeth. Gofynnodd i'r Cyngor ddynodi 3 blaenoriaeth erbyn y cyfarfod nesaf y byddent yn gallu mynd i'r afael ag e a rhoi atborth yn y cyfarfod canlynol.

6788 / Mai/ 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher, 26ain Ebrill, 2006 fel rhai cywir.
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 10fed Mai, 2006. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Ebrill 2006. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn y cynnig i gael cytundeb rhoi gwasanaeth i'r boiler yn Neuadd y Sir. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor fynd yn ei flaen gyda rhentu'r garej sy'n eiddo i Mr Gerwyn Williams. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

6789/ Mai / 06 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod y mannau parcio i'r anabl yn Heol Cilgant yn aros i'w cael eu cymeradwyo gan yr Heddlu. Dywedodd bod y Pafiliwn Tennis i'w ddymchwel gan ei fod mewn cyflwr peryglus. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i osod strwythur haearn fel ateb

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

dros dro. Cyn belled ag y mae cael mynediad dros blotiau i'r ardd gymunedol yn y cwestiwn, mae CSC wedi gofyn i un perchennog ystyried gwerthu rhywfaint o'i dir.
Dywedodd wrth aelodau'r cyfarfod ei fod ef, y Cynghorydd Sir dros Lanymddyfri a hanner Cynghorwyr Sir Rhydaman wedi pleidleisio yn erbyn codi'r prisiau parcio. Roedd yn obeithiol y byddai eu lobio yn gwneud i CSC ailystyried.

6790/ Mai/ 06 Nid oes unrhyw Faterion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol

6791/ Mai / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

Dilwyn Thomas (atgyweirio ffenestr 'sash')	£ 33.00.
Dilwyn Thomas (atgyweirio simnai a flashing)	£ 898.00
Lorne Stewart (cynnal a chadw'r boiler nwy)	£ 117.50
Viking Direct (deunydd swyddfa)	£ 121.85

Cynigiodd y Cyng Richard Wallace y dylid talu'r eitemau hyn. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

2. I ystyried y Gyllideb ar gyfer 2006-7.
Argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid gan fod cyflogau Staff £1000 yn uwch y dylid cymryd y swm ychwanegol o'r arian wrth gefn. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn Cyllideb 2006-7. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

1. Cofrestr asedau.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace gan fod angen gwneud newidiadau i'r gofrestr, y dylid ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Roedd pawb o blaid.

6792/ Mai / 06 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer, Cyng Colin Jenkins adroddiad o bob cyfarfod a digwyddiad a fynychodd ar ran y cyngor yn ystod y flwyddyn. Hoffai i'w ddiolch i'r holl Gynghorwyr gael ei gofnodi a hynny am roi gymaint o'u hamser i'r gwahanol brosiectau, ac i'r Staff newydd am y ffordd y maint wedi gwneud eu gwaith. Dymunodd yn dda i'r Maer a'r Dirprwy Faer newydd am flwyddyn wych yn eu swyddi.

6793 / Mai / 06 Y Prosiect Treftadaeth

Rhoddodd y Cyng Ros Bellamy adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd y daith Treftadaeth. Mae'r placiau Glas wedi'u dosbarthu a byddant yn cael eu gosod ar yr adeiladau priodol dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf. Mae'r byrddau gwybodaeth hefyd wedi cyrraedd.

6794/ Mai / 06 Prosiect yr Ardd

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Adroddodd y Cyng Pam Steane Price ar yr holl waith da sy'n cael ei wneud wrth gael gwared o'r sbwriel o'r ardd. Roedd y gweithgor yn obeithiol o gael cymorth gan Dîm Cymunedol Barclays. Mae Aled Williams wedi dynodi cyfleoedd i gael grantiau o dan y Cynllun Gwobrau i Bawb. Cynhelir y diwrnod gwirfoddoli nesaf ar Fehefin 7fed am 9.30 a.m.

6795/ Mai / 06 Adroddiad ar Neuadd y Sir

Dywedodd y Cyng Ieuan Gwyn bod y cais am grant i'w ystyried gan banel CSC ar Fehefin 12fed, a phe bai'n llwyddiannus bydd yn dod o flaen y Bwrdd Gweithredol ar Fehefin 22ain er mwyn cael penderfyniad terfynol.

6796/ Mai / 06 Adroddiad ar y Neuadd Ddinesig

Rhoddodd y Cyng Charlotte Leadbeater adroddiad ysgrifenedig am y gwelliannau a wnaed dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Bydd y rhodd gan y Cyngor yn galluogi addurno blaen y Neuadd, a bydd hyn yn golygu fydd yr adeilad yn fwy deniadol i dwristiaid sy'n mynd ar y llwybr Treftadaeth.

6797 / Mai / 06 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies fod llwybr troed 69/1 â sawl sticil ar ei hyd sy'n ei gwneud yn anodd i rai bobl fynd arni. Dywedodd bod Caroline Ferguson o CSC yn ymchwilio i'r mater.
Mae'r tendrau ar gyfer y cytundeb cynnal a chadw Llwybrau Troed ar gyfer 2006-7 i'w hagor ar 30fed Mai am 5.15pm.

6798 / Mai / 06 Swyddi Gwag ar y Cyngor

Darllenodd y Maer lythyr oddi wrth y Cyng Paul Faulkner yn cynnig ei ymddiswyddiad oherwydd pwysau gwaith. Dymunodd y Maer estyn ei ddiolch yn ffurfiol i'r Cyng Faulkner am ei wasanaeth i'r Dref fel Cynghorydd.
Dywedodd y Maer bod llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth Mr Edward Thomas yn cynnig ei hunan i'w gyfethol ar y Cyngor er mwyn llanw'r lle gwag sydd yn Ward Tywi. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid cyfethol Mr Thomas ar y Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gofyn i Mr Thomas arwyddo'r Datganiad o Swydd yn yr ail CCB ar Fehefin 7fed. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chofrestr Etholiadol CSC i'w hysbysu am y newid o ran Aelodau.

6799 / Mai / 06 I ystyried y Cynigion canlynol Parth: Ffordd Osgoi Llandeilo

Cyn yr eitem hon, cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylid mabwysiadu Rheol Sefydlog 10 ac y dylid cofnodi pleidleisiau aelodau. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn.

i) A yw Cyngor y Dref o'r farn bod angen Ffordd Osgoi ?

Pleidlais Oes– Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Pam Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Charlotte Leadbeater

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Pleidlais Na - Neb

Ymatal – Cyng Roy Davies

Y bleidlais **Oes** wedi'i chymeradwyo

ii) A ydy'r Cyngor yn cefnogi unrhyw un o lwybrau arfaethedig LlCC ?
Pleidlais Ydy - Cyng Ros Bellamy, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins Cyng Roy Davies.
Pleidlais Nac ydy – Cyng Charlotte Leadbeater.
Ymatal – Cyng Pam Steane Price, Cyng Fran Murphy

Y bleidlais **Ydy** wedi'i chymeradwyo

6800 / Mai / 06 – Gohebiaeth

1. Carys Jones Parth : nawdd am waith Gwirfoddoli – cyfeirio i'r Pwyllgor Cyllid.
2. Ysgol Tre-gib Parth: nawdd i Gôr yr Ysgol – cyfeirio i'r Pwyllgor Cyllid
3. AJ.Plastering Parth : Rhybudd o Sgaffaldiau – cyfeirio i'r Swyddog Technegol
4. Cyfarfod Un Llais Cymru – 5ed Mehefin yn Llangadog
5. Pecyn Bioamrywiaeth CSC. Cyng Fran Murphy i'w gynnig i Ysgol Teilo Sant
6. Richard Workman, CSC Parth: Ymateb i'r gŵyn ar daliadau Parcio
   Clerc i drefnu cyfarfod arall ar y cyd gyda Chynghorau Tref. Cynigiodd y Cyng Roy Davies y dylai'r Clerc ysgrifennu i gwyno am gyflwr y toiledau newydd. Eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Roedd pawb o blaid.

7. Sian Evans, CSC Parth profi man angori. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r Clerc ysgrifennu at Ms Evans, yn datgan na fydd y Cyngor yn talu am waith anfoddhaol, a bod y cytundeb rhwng CSC a'r is-gontractiwr. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

8. Ymgynghoriad gan y Bwrdd Iechyd Lleol – Argymhellodd y Cyng Charlotte Leadbeater y dylid sefydlu grŵp gweithredu er mwyn trafod yr argymhellion. Bydd y Cyng Ros Bellamy, Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies yn cwrdd â'r Cyng Leadbeater am 7.30p.m. ar 20fed Mehefin yn Neuadd y Sir. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylai'r grŵp gael y pwer llawn i drafod a pharatoi adroddiad i'w rhoi i'r Cyngor am ymateb. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

6801 / Mai/ 06 – Unrhyw Fater o Fusnes y mae'r Cadeirydd yn penderfynu y dylid ei ystyried fel mater brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylid cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn ar ddydd Iau, Mehefin 1af yn Siambr y Cyngor Sir am 7.30p.m. er mwyn penderfynu pa un o'r cynigion am Ffordd Osgoi y byddai'r Cyngor yn ei argymell i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y fformat canlynol.

1. Gofyn i'r lobi T-BAG a fyddai dau o'u cynrychiolwyr yn fodlon dod i annerch y Cyngor (3 munud yr un)
2. Gofyn i Mr Wyn Evans a fyddai dau gynrychiolydd yn dymuno siarad (3 munud yr un)
3. Cynrychiolwyd o Gyngor Bro Dyffryn Cennen.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

4. Pob un o Gynghorwyr y Dref i gael cyfle i annerch y Cyngor.
Y Clerc i gysylltu â'r bobl angenrheidiol yn eu hysbysu am y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 p.m.

.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk